# Cyngor Cymuned  LLANBRYNMAIR  Community Council

## Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

Cofnodion y cyfarfod a gynhalwyd ar nôs Fercher, 1af Mis Mai 2024, am 7:00yh
yn y Canolfan Cymunedol, Llanbrynmair.

**Presennol**
Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), G Davies, I Edwards, R Ashton, E Lewis, P Jones, B Jones, S Evans, D Jones a Cyng. G Mitchell (Powys)

**Ymddiheuriadau –** F Cauley

**Cworum –** Cadarnhawyd mae 4 aelod sydd yn ffurfio cworum

**Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a materion yn codi –** Pawb yn gytun

**Ethol swyddogion a cynrichiolwyr –** Cytynwyd y fydd E Davies yn parhau fel Cadeirydd a R Ashton fel Is-Cadeirydd yn ôl y traddodiad o cadw'r swyddogion am ddwy flynedd.
Mae diweddariad cynrichiolaeth y Cynghorwyr a'r Cyngor ar pwyllgorau eraill wedi ei cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol

**Adolygu a mabwysiadu adroddiad blynyddol y Cyngor** – Cyflwynwyd copi draft a cytynwyd gyda diweddariad ar manylion perthnasol

**Adroddiad blynyddol –** Cyflwynwyd draft o'r Adroddiad Blynyddol, trafodwyd rhai cywiriadau cyn ei cytuno.

**Adolygu a mabwysiadu cynllyn hyfforddi'r Cyngor** – Diweddariad a cytundeb gan pawb

**Cadarnhau trefniant yswiriant ar gyfer pob risg perthnasol** – Cytynwyd y fydd y polisi angen diweddariant cyn iddo fo ddod i ben er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r cyfrifoldabau a'r asedau megis offer chwarae, llochesi bws a toiledau cyhoeddus

**Adolygu aelodaeth Cynghorwyr i cyrff eraill** - Mae diweddariad ar diddordebau'r Cynghorwyr ar pwyllgorau eraill wedi ei cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol

**Materion ariannol a cadarnhau'r mantolen ar gyfer yr 'Annual Return' –**
1. Mantolen terfynnol i 2023-24 – cytynwyd y ffigurau fel adlewyrchiad cywir o taliadau a derbyniadau yn ystod y flwyddyn. Fydd y ffigyrau yn cael ei defnyddio ar yr 'Annual Return'
2. Cyflwynwyd diweddariad ar y polisi ariannol a cytynwyd i'w llofnodi yn y cyfarfod arferol nesaf pan fydd y cywiriadau wedi eu cwbwlhau
3. Taliadau a lwfansau i cynghorwyr. Dealltwyd fod gan cynghorwyr hawl i cael cyfraniad tuag at costau ond nid oeddent am ei dderbyn ar hyn o bryd a cafodd y ffurflenni perthnasol eu lenwi a'u llofnodi

**Apwyntiad cyfrifwyr ar gyfer awdit allanol** – Cytynwyd i ddefnyddio cyfrifwyr DRE & Co. yn Drenewydd

**Cyflog a contract y Clerc –** Cytynwyd i parhau â'r telerau presennol ond fydd y cyflog yn codi i £12.42ya yn ôl raddfa NALC Spinal point 6 LC1(5-6)

**Materion arall yn codi (i'w cynnwys ar cofnodion y cyfarfod arferol nesaf)**

1. **Toiledau cyhoeddus –** Trafodwyd cais nawdd Powys ar gyfer y plymio a'r drysau Newydd yn cynnwys y posibilrwydd o gwneud cais am nawdd gan y fferm Wynt os nad ydy cais Powys yn llwyddianus. Cynigwyd R Ashton y dylai'r Gwaith mynd yn ei flaen gyda arian y Fferm Wynt a cafwyd ei eilio gan G Davies. Cafwyd gwrthgynnig gan i aros am canlyniadau nawdd Powys a chafwyd ei eilio gan P Jones a'i cario gan 5 pleidlais i 4. Datganwyd diddordeb gan G Mitchell gan ei fod yn eistedd ar panel PAVO ar gyfer nawdd Powys er ei fod yn ymwneud a categori gwahanol
2. **Cynllunio:**
   - 24/0522/FUL | Erection and operation of a temporary meteorological mast for a 36-month period. | Land 3800 Meters West Of Staylittle Staylittle Llanbrynmair Powys – Cefnogwyd
   - 24/0237/HH | Extension and conversion of the existing two-bay garage into a residential annexe (retrospective) | Tynyddol Pantywaen Llanbrynmair SY19 7AF – Dim sylwad

Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

- R Ashton – Danadl poethion wrth lwybr yng nghanol y pentref
- R Ashton – Aflonyddwch sŵn gan cerbyd/trailer/defaid yng nghnanol y pentref
- R Ashton – Pryderon ynglyn a datblygiad tir ar ffordd Pandy
- G Davies – Gweledledd trwy lloches bws ger gardd Wynstay
- B Jones – Cyflwr ffordd Pandy
- I Edwards – Cyflwr ffordd Dolgoch
- D Jones – Golau ar hen siop Llan
- D Jones – Golau cyferbyn a Pengeulan
- D Jones – Cyflwr dŵr

Cynhelir y cyfarfod arferol nesaf ar nôs Fercher, 5ed mis Mehefin 2024
Cynhelir y cyfarfod canlynol ar nôs Fercher, 3ydd mis Gorffenaf 2024
Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol Cyffredin nesaf ar y 7fed o mis Mai 2025

Sarah Reast
Clerc, Cyngor Cymuned Llanbrynmair
E-bost: machinations@btconnect.com Tel. 07743 689912
Ysgubor Crugnant
Pennant
Llanbrynmair
SY19 7BN